

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 09.06.21 - yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: Kevin Goodchild, (Cadeirydd), Huw Davies, Ian Williams, Dylan Thomas, Keith Carroll, Geraint Edwards, David Griffiths, John Griffiths, Glenda Edwards (Clerc), un aelod o'r gymuned.

1. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. **Ymddiheuriadau:** Jenny Warne, Geraint Micah, Louise Hughes (Cyngorydd Sirol).
3. **Cadarnhau'r Cofnodion Blaenorol:** Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 12.05.21 yn gywir.
Cynnig – Keith Carroll **Eilio** – John Griffiths **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.
4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol (12.05.21):**
 - a) **Mynwent y Crynwyr, Llwyngwril** - derbyniwyd copi o gynllun rheoli ar gyfer cynnal a chadw'r Fynwent at y dyfodol, a gofynnodd Mr Tom Brown, o Sefydliad y Crynwyr, am fanylion cysylltu'r contractwr sydd yn arfer gwneud y gwaith ar y safle.
Penderfyniad → rhoi gwybod i Mr Tom Brown fod Geraint Micah wedi derbyn y contract torri gwair am y flwyddyn yma, ac ni fydd yn rhoi anfoneb i'r Cyngor Cymuned tan ddiwedd y flwyddyn.
Awgrymu fod Sefydliad y Crynwyr yn cymerid y gwaith yn ôl, a rhoi manylion cysylltu Geraint Micah iddynt.
 - b) **Parcio rhwystredig ar y ffordd ger y cae chwarae yn Llwyngwril** – mae'r mater yma wedi ei gyfeirio at Gyngor Gwynedd ag Heddlu Gogledd Cymru, i dynnu eu sylw at broblemau diogelwch sydd wedi eu creu ar y safle yma gyda pharcio rhwystredig ar y ffordd fawr, ger giât y cae chwarae.
 - c) **Meysydd parcio yn Llwyngwril** Swyddog Gorfodaeth parcio Cyngor Gwynedd yn gaddo rhoi'r gwaith yma (paentio llinellau gwyn i greu baeau parcio) ar ei rhaglen waith cyn gynted â phosib.
5. **Gohebiaeth:**
 - a) **Y Ganolfan, Llwyngwril** – llythyr wedi ei dderbyn gan y trysorydd i ddiolch am y rhodd.
 - b) **Mynwentydd Llangelynnin** – llythyr wedi ei dderbyn gan drysorydd y PCC i ddiolch am y rhodd.
 - c) **Cyngor Gwynedd** – derbyn Rhaglen waith Mis Mehefin.
 - d) **Parc carafanau Llwyn Du, Llwyngwril** - cwynion wedi eu derbyn gan aelodau'r gymuned nad yw'r perchnogion newydd yn cydymffurfio a'r caniatâd cynllunio a gyhoeddwyd iddynt gan Barc Cenedlaethol Eryri.
Penderfyniad → cysylltu â swyddogion cynllunio'r Parc Cenedlaethol Eryri i ofyn iddynt ymchwilio'r cwyn.
 - e) **Glan y Wern, Llwyngwril** - llythyr wedi ei dderbyn gan breswylwyr Ffordd Celynnin, yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor Cymuned ynglŷn â thŷ sydd yn cael ei hysbysebu fel "tŷ dathlu" gwyliau tymor byr.
Penderfyniad → yn anffodus ni ellir y Cyngor Cymuned gefnogi'r cais yma,
❖ *Keith Carroll wedi datgan diddordeb, ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy lenwi ag arwyddo' r ffurflen addas, ag heb gymerid rhan yn drafodaeth.*
 - f) **Llwybr Wendy's** - llythyr wedi ei dderbyn gan aelodau o'r gymuned yn gofyn paham nad yw'r Cyngor Cymuned yn cefnogi cais Mr N Ward - i Gyngor Gwynedd wneud y Llwybr yma'n "Llwybr cyhoeddus".
Penderfyniad → ateb i ddweud fod y Cyngor Cymuned yn y broses o wneud cais i Gyngor Gwynedd ynglŷn â Llwybr arall yn y pentref sydd yn cael llawer mwy o ddefnydd na Llwybr Wendy's.
 - g) **Llwybr Wendy's** – e-bost wedi ei dderbyn gan Mr Nick Ward eto.

6. **Materion Cynllunio:**

- a) **Cais: NP5/69/16J – Tir ger Castell Mawr, Llanegryn** → dim sylwadau na gwrthwynebiadau.
- b) **Er Gwybodaeth - NP5/69/41D** - Cais ol-weithriedol ar gyfer defnyddio'r tir ar gyfer lleoli un garafán teithio yn barhaol ar gyfer defnydd fel llety gwyliau, ar dir gyferbyn a Mynwent y Crynwyr, Llwyngwril - **Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi gwrthod y datblygiad yma.**

7. **Adroddiad Ariannol:** Adolygiad ariannol wedi ei wneud.

Derbyniwyd Adroddiad Mis Mai 2021 yn gywir.

Cynnig – Ian Williams **Eilio** – Huw Davies **Arwyddwyd** – Kevin Goodchild.

- a) **Archwiliad Mewnol Cyfrifon y Cyngor -(blwyddyn yn diweddu 31.03.21)** - Adroddiad yr archwilydd mewnol wedi ei dderbyn yn ol gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd.
Nodwyd fod yr adroddiad yn cyfeirio at ddiffyg cytundeb cyflogaeth, fel llynedd, gyda ystyriath o'r eglurhad o fewn yn adroddiad.
Nodwyd hefyd fod rhai neu'r cyfan o'r gwariant a nodir o dan adran 137 yn gallu cael eu hadnabod fel gwariant a ganiateir o dan wariant bwerau eraill.
- b) **Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.21** – wedi ei chwblhau a'u derbyn yn ol gan yr archwilydd mewnol . Aelodau wedi ei chymeradwyo a'r Cadeirydd wedi ei harwyddo ar gyfer yr Archwiliad Allanol.
- c) **Adnewyddu Ffi diogelu data – GDPR:** £40.00 - sic e'w hanfon i'r ICO am y flwyddyn 2021-22.
- d) **Talu am ddefnyddio'r Ganolfan am bedwar cyfarfod** - 01.04.20 → 31.03.21 = £40.00.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr:** Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol:** Ddim yn bresennol.

10. **Unrhyw Fater Arall:**

- a) **Hysbysfwrdd yn "lay-by" Pont y Cletwr** - wedi ei ddifrodi yn y stormydd dechrau'r flwyddyn. Aelod o'r gymuned yn gofyn a oedd modd i'r Cyngor Cymuned helpu i'w drwsio a'i roi yn ol i fyny?
Penderfyniad → cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am bris am wneud y gwaith yma.
- b) **Ceg yr Afon Gwrlil:** Huw Davies wedi rhoi adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â chael caniatâd i adnewyddu'r llwybr. Cais am drwydded 5 mlynedd wedi ei chyflwyno, gyda'r ymgynghoriad yn dod i ben 11.06.21. Gobeithio cael fwy o wybodaeth yn fuan.
- c) **Rhwystrau Diogelwch ar y ffordd rhwng Llwyngwril a Friog:** cwynion wedi ei derbyn fod y broblem yma'n gwaethygu, gyda'r rhwystrau diogelwch yn gwyro i'r ffordd erbyn hyn
Penderfyniad → cysylltu â Network Rail a Chyngor Gwynedd am eu sylw brys.
- d) **Goleuadau i'r Coed Nadolig** - angen archebu goleuadau yn barod at Nadolig nesaf!
- e) **Swydd y Clerc** – un person wedi dangos diddordeb i drïo am swydd y Clerc i'r Cyngor Cymuned.
Paratoi ffurflen gais iddynt gwblhau, i'w chyflwyno erbyn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf :- Nos Fercher – 14.07.21 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan

Arwyddwyd

Cadeirydd **Dyddiad**